

VOLUNTARY
ACTION
GWEITHREDU
GWIRFODDOL

VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL

Adroddiad Blynyddol 2019-20



DATGANIAD CENHADAETH

Cynyddu maint, ansawdd ac effaith gweithredu gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful trwy gefnogi, cynrychioli a chynorthwyo sefydliadau'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.

Effeithio ar newid trwy wella lles unigolion, sefydliadau a chymunedau.

GWELEDIGAETH

- Bod yn ganolfan ragoriaeth ym Merthyr Tudful ar gyfer darparu gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r Trydydd Sector a gwirfoddoli.
- Creu cymuned iach trwy helpu i ddatblygu sefydliadau i ddiwallu eu hanghenion, gwneud y mwyaf o gyfleoedd gwirfoddoli a rhannu ein cenhadaeth gyda'r holl randdeiliaid.



**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**



www.vamt.net



Voluntary Action Merthyr Tydfil
Volunteer Centre Merthyr Tydfil



@VAMTtweets
@VAMTvolunteer
@CwmTafCC

Canolfan Gweithredu Gwirfoddol,
89-90 Pontmorlais, Stryd Fawr,
Merthyr Tudful CF47 8UH
Ffôn: 01685 353900 • enquiries@vamt.net

Rhif Cofrestru Elusen 1118403
Rhif Cofrestru Cwmni 6058360



Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**
Third Sector
Support **Wales**



RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG

Rydym yn falch o gyflwyno'r trydydd Adroddiad Blynyddol ar hugain gan Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Roedd eleni yn teimlo fel un o gydgrynhoed â thîm staff llawer llai nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond hefyd yn un o adnewyddu a datblygu mentrau newydd. Mae GGMT yn parhau i ymdrechu i gefnogi ein haelodau ac mae'r galw yn parhau am ein gwasanaethau craidd, hynny yw, cefnogaeth gwirfoddoli, cefnogaeth llywodraethu, cymorth cyllido a'n rôl gynrychioliadol. Mae ein partneriaid wedi parhau i gyllido'r Cydlynwyr Cymunedol ac ystod o gynlluniau grant o Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae ein rôl rwydweithio yn parhau ar sail leol a rhanbarthol gyda rhwydweithiau a digwyddiadau lleol yn parhau i gael eu cefnogi'n dda.

Roeddem yn falch iawn o gefnogi datblygiad y prosiect newydd "Taclo Unigrwydd ac Arwahanrwydd" yn ystod y flwyddyn a chynyddu lefel ein cefnogaeth i Hyb Cymunedol Calon Las yn Gurnos.

Mae GGMT yn parhau i ymgysylltu â gweithgarwch rhanbarthol fel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn bellach yn cwmpasu cydweithredu â Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal ag Interlink RhCT yn dilyn y newidiadau yn y ffin ranbarthol. Roeddem hefyd yn falch o weinyddu cynllun grant Cronfa Gymunedol Comic Relief ar gyfer y rhanbarth.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog, rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad effeithiol. Dim ond gyda thîm ymroddedig o ymddiriedolwyr a staff y gallwn gyflawni hyn a hoffem ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

Yn olaf, rhaid inni achub ar y cyfle i ddiolch i brif gyllidwyr GGMT am eu cefnogaeth barhaus; sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Hefyd, diolch i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am eu cefnogaeth barhaus.



Anne Roberts, Cadeirydd



Ian Davy, Prif Swyddog

FFEITHIAU A FFIGURAU

Cyfanswm yr achosion
o gyngor/cefnogaeth i
sefydliadau/
rhanddeiliaid

1,792

Nifer y y
gwirfoddolwyr
a gefnogwyd

223

Nifer y sefydliadau
Trydydd Sector
yn cael cyngor/
cefnogaeth uniongyrchol

177

Nifer y sefydliadau
Trydydd Sector a
gyfeiriwyd at gymorth
arbenigol

4

Nifer y cyfranogwyr
mewn cyrsiau hyfforddi
a ddarparwyd

122

Swm y cyllid
a ddarparwyd trwy
gynlluniau grantiau a
weinyddwyd gan GGMT
£483,797
wedi ariannu
88 prosiect

Swm yr arian
a dderbyniwyd gan
sefydliadau'r Trydydd Sector
yn dilyn cefnogaeth
£234,664
wedi ariannu
15 prosiect

Nifer y mynychwyr
mewn fforymau
a digwyddiadau a
drefnwyd gan GGMT

565

Cyfanswm aelodau

280

Nod 1 - Galluogi sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau, gwella ym mhob agwedd ar eu gwaith a dod yn gydnerth

- Mae **cefnogaeth llywodraethu** wedi'i darparu i 47 o sefydliadau. Mae cefnogaeth fanwl wedi'i darparu i 8 sefydliad ar faterion fel opsiynau llywodraethu a risg, materion cyfansoddiadol, strwythurau cyfreithiol, monitro a gwerthuso. Darparwyd cyngor ac arweiniad i un sefydliad yn gyfrinachol. Lluniwyd adroddiad dros gyfnod o naw mis gydag argymhellion helaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad i'w Bwrdd Ymddiriedolwyr a chafodd ei dderbyn.
 - Darparwyd **cymorth cyllido** i 54 o wahanol sefydliadau gyda 7 sefydliad yn derbyn cefnogaeth fanylach. Hyrwyddwyd 33 o gyfleoedd cyllido ar flog GGMT a chyfryngau cymdeithasol.
 - Cyhoeddwyd pedwar copi o **gylchgrawn INFORM**
 - **Cyfryngau Cymdeithasol**
 - ◆ Gwnaeth 3,052 o ddefnyddwyr ymweld â gwefan GGMT ac roedd 4,932 o achosion o edrych ar dudalennau.
 - ◆ Cyhoeddwyd 130 o negeseuon ar Blog Newyddion GGMT - roedd 1,848 o ddefnyddwyr a 2,633 o achosion o edrych ar dudalennau.
 - ◆ Mae gan Twitter GGMT 1,867 o ddilynwyr. Yn ystod y flwyddyn, roedd 43,928 o argraffiadau trydar (cyrhaeddiad), 135 o ddilynwyr newydd a 259 o grybwylliadau.
 - ◆ Mae gan Facebook GGMT 478 o ddilynwyr, mae 466 wedi'i hoffi ac fe gyhoeddwyd 202 o negeseuon.
 - **Ymateb i Goronafeirws**
 - ◆ Mewn ymateb i argyfwng Covid, symudodd staff GGMT i weithio gartref ar 18 Mawrth 2020.
 - ◆ Datblygwyd taenlen gwasanaethau cymorth a chefnogaeth yn nodi cynigion o gymorth a chefnogaeth gan sefydliadau'r trydydd sector a rhai lleol. Erbyn 31ain Mawrth, roedd hyn yn cynnwys 66 o wasanaethau gan gynnwys siopa, cyfeillio, dosbarthu presgripsiynau, dosbarthu bwyd, cyngor cymorth a chefnogaeth. Defnyddiwyd hwn yn helaeth gan yr holl asiantaethau ledled y fwrdeistref i ddod o hyd i gefnogaeth trydydd sector i'w cleientiaid, tenantiaid ac ymholwyr cyffredinol.
 - ◆ Rhwng 18 Mawrth a 28 Mawrth, cafodd 8 papur briffio cyffredinol ar gefnogaeth wedi'i diweddaru eu dosbarthu i aelodau GGMT a chysylltiadau allweddol eraill i'w galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y sector.
 - ◆ Datblygwyd a chyhoeddwyd canllawiau cychwynnol ar Covid ar gyfer cynlluniau cymunedol lleol; diweddariadau GDPR, asesiadau risg a chytundeb gwirfoddolwr enghreifftiol.
 - ◆ Hyrwyddwyd a recriwtiwyd ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli.
- Amlygir crynodeb llawn o ymateb Covid GGMT yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.
- Cefnogwyd **Rhwydwaith Tlodi Bwyd Merthyr Tudful** a flaenoriaethodd ddatblygu mentrau oergell/pantri bwyd cymunedol. Cyflwynwyd dau gynig cydweithredol, gyda'r ddau yn llwyddiannus, i ddatblygu darpariaeth pantri bwyd, ar draws y fwrdeistref.
 - Gweithredwyd fel y CGS arweiniol wrth weinyddu **Cronfa Gymunedol Comic Relief** ar draws Merthyr Tudful, RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr. Derbyniwyd 25 cais i gyd, sef cyfanswm o £197,000. Cynullwyd panel gan GGMT gyda chynrychiolaeth gan ymddiriedolwyr y tri CGS yn y rhanbarth. Cymeradwywyd 20 cais a dosbarthwyd y swm cyfan o £145,000 oedd ar gael. Mae GGMT yn gyfrifol am weinyddu a chasglu'r adroddiadau monitro ar gyfer y prosiectau.
 - Hwyluswyd trafodaethau cychwynnol gyda **Sefydliad Lloyds** a rhanddeiliaid lleol. Yn dilyn hyn cadarnhaodd Lloyds fod Merthyr Tudful yn un o'u 6 ardal ddethol lle byddant yn darparu cefnogaeth ychwanegol yn y DU a dyma'r unig un yng Nghymru. Cynhaliwyd ymweliad diwrnod gan Sefydliad Lloyds ym mis Tachwedd lle bu eu staff yn ymweld â sawl

sefydliad lleol a mynychu CCB GGMT. Y cam nesaf oedd cynnull gweithdy mwy i gynnwys yr holl bartneriaid i nodi blaenoriaethau a chytuno ar ffordd ymlaen. Fodd bynnag, gohiriwyd y digwyddiad a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth oherwydd y pandemig. Mae cyswllt wedi'i gynnal ac mae Merthyr Tudful yn dal i fod yn ardal blaenoriaeth iddynt. Yr ymrwymiad yw i ddatblygiad tymor hir (5-10 mlynedd) gydag adnoddau, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau a arweinir yn lleol.

- Aseswyd ceisiadau ar gyfer **cynllun grant Treth Tirlenwi TSSW** ar gyfer y ddwy rownd o gynigion yn ystod y flwyddyn.
- Gweinyddwyd y **Cynllun Grant Capasiti Cymunedol** diwygiedig ar gyfer grantiau bach a meicro a hyrwyddwyd ar draws aelodaeth GGMT ac Interlink. Dyfarnwyd 20 o geisiadau sef cyfanswm o £60,000.
- Gweinyddwyd **Cynllun Grant Capasiti Cymunedol Dementia** sy'n rhychwantu dwy flynedd ariannol. Mae 10 prosiect wedi'u cyflwyno trwy'r cynllun a byddant yn cyflawni gwasanaethau ledled rhanbarth Cwm Taf.
- Rheolwyd **Cronfa Grantiau Cyfalaf Cwm Taf** gwerth £70,000 gan arwain at gytundeb bod 11 prosiect yn gallu symud ymlaen.
- Parhawyd i weinyddu cyllid yr ICF ar gyfer **Gwasanaethau Cyfeillio**. Cefnogwyd 5 prosiect, Cynllun Cymydog Da RVS, Prosiect Welcome Friends Volunteering Matters, Valleys Kids - Keeping Connected with your Community, Age Connects Morgannwg – Prosiect Reaching Out a Safer Merthyr Tydfil – Reconnect 50.
- Cefnogwyd y **Ffair Cyllidwyr** a drefnwyd gan yr AS a'r AC ar gyfer Merthyr Tudful. Roedd 6 ymholiad uniongyrchol yn y digwyddiad a ddilynwyd i fyny.
- Cydweithiwyd ag Interlink a BAVO i hwyluso **Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf Morgannwg**. Cynhaliwyd y digwyddiad fis Ebrill ym Merthyr Tudful a mynychodd 71 o bobl.
- Cefnogwyd pum sefydliad gyda **chyfrifyddu ariannol**.
- Darparwyd **cefnogaeth ariannol** dydd i ddydd i ddau sefydliad ar sail contract ffurfiol.



- Cymerwyd rhan mewn cyflwyno **Gwobrau Tlws Crisial Cwm Taf** sy'n cydnabod y cyfraniad at les gan sefydliadau'r trydydd sector. Cipiodd prosiect Reconnect 50 Safer Merthyr Tydfil y wobwr gyntaf o £1,000 ynghyd â Thlws Crisial. Enillodd Cymdeithas Tai Merthyr Tudful y drydedd wobwr o £500 am eu Prosiect Fit and Fed (Newyn Gwyliau).



Gwobrau Tlws Crisial



Reconnect 50 • y Safle 1af



Fit and Fed • 3ydd safle

Nod 2 - Cryfhau cynrychiolaeth a dylanwad sefydliadau'r trydydd sector

- Hwyluswyd chwe chyfarfod o'r **Fforwm Iechyd a Lles** a fynychwyd gan 173 o gyfranogwyr.
- Hwyluswyd **Rhwydwaith Tlodi Bwyd Merthyr Tudful** a gyfarfu ar 3 achlysur, gan ganolbwyntio ar gamau sydd wedi arwain at ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar y defnydd o brydau ysgol am ddim, grantiau gwisg ysgol a mwy o weithio ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol i alluogi darparu "Fit and Fed" ar draws 10 ardal yn y fwrdeistref.
- Cyd-hwyluswyd a chyd-gyflwynwyd tri chyfarfod o **Fforwm 50+ Merthyr Tudful** gyda CBS Merthyr Tudful. Mynychodd tua 60 o bobl bob chyfarfod.
- Hwyluswyd **Fforwm Darparwyr Gofal Dementia Cwm Taf** ar y cyd ag Interlink.
- Hwyluswyd **Fforwm Darparwyr Gofal Dementia Cwm Taf** ar y cyd ag Interlink. Cafodd 3 chyfarfod eu cynnull a'u mynychu gan 39 o bobl.
- Cefnogwyd **Rhwydwaith yr Amgylchedd a Mannau Gwyrdd** i drefnu taith maes i sawl prosiect amgylcheddol/cadwraeth yn y Fwrdeistref. Roedd 25 o gyfranogwyr.
- Arweiniwyd ar yr amcan "**Taclo Unigrwydd ac Arwahanrwydd**" yng Nghynllun Lles Cwm Taf sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Yn deillio o'r gwaith hynny datblygwyd a rhanwyd **dull strategol o "Ragnodi Cymdeithasol"** mewn cydweithrediad â lechyd y Cyhoedd a phartneriaid eraill. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Nod 3 - Gwella gwirfoddoli a lles trwy gyfranogiad a gweithredu cymunedol

- Cefnogwyd 223 o wirfoddolwyr **posibl** gydag o leiaf 97 yn cael eu gosod. Gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer yr unigolion â diddordeb ac yn cael eu gosod i wirfoddoli tua diwedd mis Mawrth oherwydd y cynnod clo. Rhoddwyd gwybodaeth gyffredinol i 21 o bobl ynglŷn â gwirfoddoli a gosodwyd 41 o bobl rhwng 18 a 31 Mawrth.
- Allgymorth **wythnosol** yn y Ganolfan Byd Gwaith leol a Choleg Merthyr Tudful.
- Cefnogwyd 16 sefydliad yn uniongyrchol gyda materion **recrwtio gwirfoddolwyr**.
- Cefnogwyd 14 sefydliad yn uniongyrchol gyda **materion arfer da wrth wirfoddoli**.
- Gweithiwyd gyda Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Cyfan Merthyr Tudful i gyflawni'r **Cynllun Grantiau dan Arweiniad Ieuenctid**. Dyfarnwyd cyfanswm o £9,760 i saith prosiect.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar wefan **Gwirfoddoli Cymru** a fynychwyd gan 13 sefydliad.
- Cynhaliwyd dau gyfarfod o **Rwydwaith Rheoli Gwirfoddolwyr Cwm Taf**.
- Cynhaliwyd **Ffair Wirfoddoli** fywiog yng Ngholeg Merthyr Tudful ym mis Medi a fynychwyd gan 25 o sefydliadau.





Hyb Cymunedol Calon Las

- Cynhaliwyd dau ddiwyddiad allgymorth fel rhan o **Wythnos Gwirfoddolwyr**, un yn Tesco a'r llall yn Marks and Spencer.
- Fel rhan o **Gynllun Gwirfoddoli Cyflogaion** GGMT, cefnogwyd dau sefydliad lleol.
- Parhaodd y prosiect **Cydlynwyr Cymunedol** ar sail Cwm Taf mewn partneriaeth ag Interlink.
 - ◆ Cyhoeddwyd 12 bwletin misol
 - ◆ Dosbarthwyd bwletinau i dros 900 o gysylltiadau ar draws pob sector.
 - ◆ Cyfeiriwyd 693 o unigolion i wasanaethau a gweithgareddau'r trydydd sector. Roedd 32 yn ymwneud yn benodol â Covid.
 - ◆ Derbyniwyd atgyfeiriadau ar gyfer 548 o unigolion am faterion yn amrywio o wiriadau budd-daliadau i gymorth cymdeithasol. Roedd 36 o'r atgyfeiriadau'n ymwneud yn benodol â Covid.
 - ◆ Cynhaliwyd 11 sesiwn sgrinio/imiwneiddio mewn Meddygfeydd Teulu.
 - ◆ Cynhaliwyd 12 sesiwn chwalu mythau gan ddarparu gwybodaeth i 300 o bobl.
 - ◆ Cefnogwyd Ymddiriedolaeth Afu Prydain i hyrwyddo a chynnal eu sioe deithiol "Love your Liver" yn GGMT - mynychodd dros 50 o bobl a chawsant sgan a chyngor am ddim.
 - ◆ Trefnwyd i staff cymorth dementia Cymdeithas Alzheimer fynychu clinig dementia wythnosol newydd ym Mhractis Meddygol St Johns.
 - ◆ Gweithiwyd mewn partneriaeth â Diabetes UK a Grŵp Cymorth Diabetes Cwmbach

i ddatblygu menter newydd "Byw gyda Diabetes" yn ne Cwm Cynon.


- ◆ Cyflwynwyd 6 chyflwyniad i dimau sector statudol ac un i fyfyrwr anghydraddoldebau lechyd BSc.
- ◆ Gwnaed 214 o atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd sector a statudol. Roedd 24 o'r atgyfeiriadau'n ymwneud yn benodol â Covid.
- ◆ Trefnwyd 34 sesiwn ar ran sefydliadau'r trydydd sector i'w galluogi i wella ymgysylltiad â gofal sylfaenol/iechyd a chodi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau yn uniongyrchol gyda chleifion.
- ◆ Gwnaed 33 o atgyfeiriadau ar gyfer gwiriadau budd-daliadau er mwyn cynyddu incwm i'r eithaf.
- ◆ Gwnaed 17 o atgyfeiriadau at Gofal ac Atgyweirio i gael gwiriadau diogelwch cartref.
- Cefnogwyd gweithredu **Parth Cymunedol Gurnos** a pharhau i gyflogi Swyddog Gwybodaeth a Chyngor yn Hyb Cymunedol Calon Las. Ym mis Awst, ychwanegwyd at hyn trwy benodi Swyddog Datblygu Cymunedol rhan-amser. Maent wedi:
 - ◆ Cefnogi unigolion trwy wneud 40 o gyfeiriadau at wasanaethau/gweithgareddau yn yr ardal a gwneud 6 atgyfeiriad ymlaen at sefydliadau/prosiectau eraill.
 - ◆ Trefnu 12 gwasanaeth newydd i'r hyb.
 - ◆ Trefnu a hwyluso diwrnod Cacennau Bach Dementia, gan godi £140 i Gymdeithas Alzheimer.

- ◆ Cefnogi Wythnos Gwirfoddolwyr a mentrau eraill fel Wythnos Dysgwyr sy'n Oedolion.
- ◆ Cefnogi trefniadaeth digwyddiad lansio'r Hyb Cymunedol ym mis Medi.
- ◆ Mewn partneriaeth â'r Dog's Trust trefnwyd dwy sesiwn Archwiliad lechyd am ddim.
- ◆ Mewn partneriaeth â Phrosiect Ieuenctid 3G cynhaliwyd digwyddiad Nadolig ar gyfer y gymuned. Roedd dros 100 yn bresennol gan gynnwys 80 o blant.
- ◆ Trefnu Groto Siôn Corn ar gyfer trigolion Gurnos.
- ◆ Mae tudalen Facebook ar gyfer Calon Las wedi'i datblygu i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr Hyb Cymunedol ac i annog mwy o ddeialog gyda'r gymuned leol. Cyflawnwyd 298 o ddilynwyr.
- ◆ Trefnwyd digwyddiad Casglu Sbwriel Cymunedol ac roedd yn cynnwys 46 o bobl.
- ◆ Cynhaliwyd proses ymgynghori ynghylch ehangu arfaethedig yr Hyb.

- Gweithredwyd y **Prosiect Taclo Unigrwydd ac Arwahanrwydd** ym mis Hydref sy'n darparu ar gyfer swyddog datblygu i weithio gyda chymunedau ym Merthyr Tudful a RhCT. Mae'r prosiect wedi:
 - ◆ Helpu i sefydlu prosiect Men's Shed yn Nowlais gyda 6 dyn.
 - ◆ Sefydlu Grŵp Gweithgareddau Dan Do Dynion Calon Las gyda chefnogaeth Parc Iechyd Keir Hardie a Grŵp Dynion Gurnos.
 - ◆ Sefydlu grŵp newydd i bobl dros 50 oed o'r enw The Golden Girls wedi'i leoli yn Caedraw.
 - ◆ Cyflwyno sesiwn hyfforddi Ffrindiau Dementia i Gymdeithas Hanesyddol Merthyr a phedair sesiwn hyfforddi ffrindiau dementia i Valleys Homes Merthyr.
 - ◆ Cymerodd 39 aelod o staff ac aelodau'r gymuned ran a chwblhau'r hyfforddiant.
 - ◆ Cefnogi ymgynghoriad cymunedol Rhondda Uchaf ym mis Chwefror.
 - ◆ Cyflwyno sesiwn blasu cwrlo dan do ar gyfer fforwm 50+ Taf Elai a fynychwyd gan 27 aelod o'r gymuned.
 - ◆ Cyflwyno ymgynghoriad cymunedol Cwrdd a Chyfarch yng Nghanolfan Ddydd Gilfach Goch a fynychwyd gan 20 aelod cymunedol.
 - ◆ Cyflwyno digwyddiad blasu yn neuadd yr henoed Ystrad Rhondda a fynychwyd gan 16 aelod o'r gymuned.



Y Prosiect Taclo Unigrwydd ac Arwahanrwydd



DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

(Gan gynnwys Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad o Gyfanswm Enillion a Chollodion Cydnabyddedig)

Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020

	2020			(Fel yr aiddatganwyd) 2019
	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm	Cyfanswm
	£	£	£	£
Incwm a Gwaddolion o:				
Gweithgareddau elusennol	202,036	865,551	1,067,587	686,003
Gweithgareddau masnachu eraill	73,709	-	73,709	79,364
Incwm buddsoddi	1,104	-	1,104	2,218
Incwm arall	6,127	-	6,127	3,246
Cyfanswm Incwm	282,976	865,551	1,148,527	770,831
Gwariant ar:				
Gweithgareddau elusennol	(291,256)	(784,186)	(1,075,442)	(970,776)
Cyfanswm Gwariant	(291,256)	(784,186)	(1,075,442)	(970,776)
Enillion/colledion ar asedau buddsoddi	(8,373)	-	(8,373)	-
(Gwariant)/incwm net	(16,653)	81,365	64,712	(199,945)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	36,214	(36,214)	-	-
Symud net mewn cronfeydd	19,561	45,151	64,712	(199,945)
Cysoni cronfeydd				
Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	426,951	41,824	468,775	668,720
Cyfanswm yr arian a ddygir ymlaen	446,512	86,975	533,487	468,775

Mae holl weithgareddau'r elusen yn deillio o weithrediadau parhaus yn ystod y ddau gyfnod uchod.

MANTOLEN

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2020

	2020	(Fel yr ailldatganwyd) 2019
	£	£
Asedau Sefydlog		
Asedau diriaethol sefydlog	123,838	148,934
Buddsoddiadau	66,627	-
	190,465	148,934
Asedau cyfredol		
Dyledwyr	192,685	105,209
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	339,144	369,234
	531,829	474,443
Credydwyr:		
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(188,807)	(154,602)
Asedau cyfredol net	343,022	319,841
Asedau net	533,487	468,775
Cronfeydd yr Elusen:		
Cronfeydd incwm cyfyngedig		
Cronfeydd cyfyngedig	86,975	41,824
Cronfeydd incwm anghyfyngedig		
Cronfeydd anghyfyngedig	446,512	426,951
Cyfanswm y cronfeydd	533,487	468,775

AELODAU'R BWRDD A STAFF

Aelodau'r Bwrdd

Anne Roberts Cadeirydd
Edward Dawson (o 20/11/19) Is-gadeirydd (o 3/2/20)
Helen Thomas Is-gadeirydd (tan 3/2/20)
Paul Gray Trysorydd
Nicola Mahoney
Mark Ward
Kayleigh Nor-Val
Michelle Jones
Amber Lewis (tan 20/11/19)
Michael Ronan (o 20/11/19)
Brian Lewis (cyfetholedig)
Suzanne Davies (cyfetholedig)

Aelodau Staff

Carol Hindley Rheolwr Gweinyddiaeth a Chyllid
Ceri Samuel Swyddog Gwybodaeth a Chyngor Parth Cymunedol (Gurnos)
Claire Williams Cydlynnydd Cymunedol
Deanne Rebane Cydlynnydd Cymunedol
Frances Barry Swyddog Gwirfoddoli
Hilary Edwards Uwch Swyddog Datblygu
Ian Davy Prif Swyddog
Laura Johnson Swyddog Gweinyddiaeth a Chyllid
Ryan Bevan Swyddog Datblygu Taclo Unigrwydd (o fis Medi 2019)
Sharon Richards Rheolwr Iechyd a Lles
Susan Jones Gweithiwr Datblygu Cymunedol (Gurnos)